TROADAU YMADRODD / TERMAU DYFEISIAU LLENYDDOL

ANSODDEIRIAU	Geiriau sy'n disgrifio enwau, e.e. "cath ddu"; "awel fain".
PENTYRRU ANSODDEIRIAU	Os defnyddir sawl ansoddair, gelwir hyn yn 'pentyrru ansoddeiriau', e.e. "coedwig dywyll, werdd, Geltaidd".
ADFERF	Gair sy'n disgrifio berf/gweithred e.e. "Rhedodd yn gyflym."
CYFLYTHRENIAD	Mae'r bardd/awdur yn ailadrodd llythyren er mwyn creu effaith, e.e. "Llawn o helynt yr heli"; "ci cas creulon".
AILADRODD	Ailddweud gair neu ymadrodd i bwysleisio neges ac i greu effaith, e.e. "Hen bethau bach, bach gwylaidd a gwyn."
CYFFELYBIAETH	Wrth ddisgrifio rhywbeth, mae'r bardd yn dweud ei fod fel rhywbeth arall, e.e. "A phobl fel llygod, / Yn dod allan o'r llwch ac o'r baw."
CYMHARIAETH	Dull o gymharu ond heb ddefnyddio'r gair 'fel', e.e. "mor goch â thân/cyn lased â'r môr".
TROSIAD	Wrth ddisgrifio rhywbeth, mae'r bardd yn dweud ei fod yn rhywbeth arall y tro hwn, e.e. "gwallt o wair"; "dant y wrach" (pibonwy: 'icicles').
PERSONOLI	Rhoi natur ddynol i rywbeth nad yw'n ddynol, e.e. "Hen wraig y tymhorau ydwyt" (disgrifio coeden yn yr hydref).
GWRTHGYFERBYNIAD/ CYFERBYNIAD	Cymharu rhywbeth gyda rhywbeth arall sy'n hollol wahanol iddo, e.e. du/gwyn; da/drwg; goleuni/tywyllwch …
ONOMATOPOEIA	Mae'r bardd yn dewis ei eiriau yn ofalus fel bod sŵn y geiriau yn cyfleu'r ystyr, e.e. "A'r dyfodol yn rhoi clep yn ei wyneb". (Mae'r dyfodol du, heb waith yn un poenus i'r gŵr canol oed – mae effaith diweithdra yn peri poen iddo.)
DELWEDD	Math o ddarlun trosiadol sy'n cael ei ddefnyddio i gyfleu syniad trwy gyfrwng symbol, e.e. mae Saunders Lewis yn cyfeirio at Gymru (y wlad) fel "gwinllan", sef tir gwerthfawr, arbennig y mae'n rhaid edrych ar ei ôl.
ODL	Diwedd llinellau yn gorffen gyda'r un sŵn, e.e. cawr / mawr.
ODL FEWNOL	Geiriau y tu mewn i linell yn odli, e.e. "gwaedliw cymysgliw du".
GEIRIAU CYFANSAWDD	Cyfuno geiriau i ffurfio gair newydd (er mwyn creu effaith) e.e. "cringoch" (crin + coch); "gwaedliw" (lliw + gwaed). Mae treiglad meddal ar gychwyn ail ran y gair.